# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2022 – Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3347A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 14

Atodiad 2 – ffi archwilio 16

Atodiad 3 – risgiau i archwilio'r cyfrifon 17

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

1 Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r canfyddiadau o’m gwaith archwilio yn 2022 yn Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru (yr Awdurdod) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae’r Ddeddf honno’n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio’r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Awdurdod, a’u gosod gerbron y Senedd;
- fy argyhoeddi fy hun bod gwariant ac incwm wedi’u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd a’u bod yn unol â’r awdurdodau; a hefyd
- fy argyhoeddi fy hun bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae’n defnyddio adnoddau.

2 Rwy’n nodi fy nghanfyddiadau ar y cyfan dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o’r cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

3 Digwyddodd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i’r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19. Roedd cyrff iechyd nid yn unig yn mynd i’r afael â’r heriau uniongyrchol a achoswyd gan argyfwng iechyd y cyhoedd ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i’r niferoedd sylweddol o bobl sy’n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Cafodd fy rhaglen waith ei dylunio, felly, i roi’r sicrwydd gorau i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli’n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng cyfredol ar gydnerthedd gwasanaethau cyhoeddus a’u trefn yn y dyfodol.

4 Roeddwn yn amcanu at sicrhau na fyddai fy ngwaith yn amharu ar ymdrechion cyrff cyhoeddus i fynd i’r afael â’r argyfwng, gan sicrhau hefyd ei fod yn parhau i gefnogi craffu a dysgu. Fe wnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan mwyaf lle’r oedd yn bosibl, gan ddefnyddio technoleg, ond fe ailddechreuwyd peth gwaith archwilio ar y safle lle’r oedd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. Mae’n anorfod bod hyn wedi cael effaith ar y ffordd yr ydym yn gwneud gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i wreiddio newidiadau cadarnhaol i’n ffyrdd o weithio.

5 Fel yn y ddwy flynedd flaenorol, rwyf wedi parhau i wneud fy ngwaith archwilio cyfrifon o bell gan mwyaf. Mae’r llwyddiant o ran ei gyflawni’n adlewyrchu cydymdrech wych gan fy staff a chan swyddogion yr Awdurdod.

6 Rwyf wedi addasu ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng ac i’w gwneud yn bosibl gweithio o bell. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi gwneud sylwadau ynglŷn â sut y mae trefniadau llywodraethu wedi addasu i ymateb i’r pandemig, a’r effaith y mae’r argyfwng wedi’i chael ar ddarparu gwasanaethau.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau mwy manwl i'r Awdurdod eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws gwaith sy'n dal ar y gweill, ond nad yw wedi cael ei gwblhau eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwneud fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2022.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau i archwilio'r cyfrifon a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2022 a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe gyflwynom ni'r adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 14 Chwefror 2023. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad yn un o gyfarfodydd diweddarach y Bwrdd a bydd pob aelod yn cael copi. Rydym yn annog yr Awdurdod yn gryf i drefnu ei fod yn cael ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn trefnu bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Awdurdod am eu help a'u cydweithrediad trwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

12 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Awdurdod wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi rhoi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol yr Awdurdod (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i).

13 Fe gyflwynais un argymhelliad yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon. Byddaf yn adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd gan yr Awdurdod i roi hwn ar waith fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2022-23.

14 Ni chanfûm unrhyw drafodion ariannol perthnasol yng nghyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2021-22 nad oeddent yn unol â'r awdurdodau neu nas defnyddiwyd at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2021-22.

15 Cyflawnodd yr Awdurdod ei ddyletswydd ariannol i adennill costau yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

16 Fe wnaeth fy adolygiad o'r amgylchedd TG a rheolaethau ar gymwysiadau a gymhwysir i'r systemau ariannol cenedlaethol a letyir gan yr Awdurdod ac a ddefnyddir gan sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru fy sicrhau bod gwerthoedd ariannol a gynhyrchwyd gan y systemau ar gyfer 2021-22 yn debygol o fod heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, er y gellid cryfhau rhai rheolaethau.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

17 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliad bod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran gwreiddio trefniadau llywodraethu da, a bod rhaid iddo fynd ati yn awr i ddatblygu ei rôl fel partner digidol dibynadwy ymhellach i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer gwasanaethau a hwylusir gan dechnoleg ddigidol ledled Cymru.

18 Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

19 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth ar arian cyhoeddus. Trwy gyfrwng y cyfrifon y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion, a llifoedd arian. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny'n darparu barn ynglŷn â'u cywirdeb a defnyddio arian cyhoeddus yn briodol ('rheoleidd-dra').

20 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2022 yn nodi'r risgiau allweddol i archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2021-22 a manylir ar y rhain ynghyd â sut yr aethpwyd i'r afael â hwy yn **Arddangosyn 4**, **Atodiad 3**.

21 Caiff fy nghyfrifoldebau am archwilio'r cyfrifon eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau.

### Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2021-22

22 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon yr Awdurdod wedi cael eu paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi rhoi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i); fodd bynnag, dygais rai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar gyfer gwella.

23 Y cyfrifon oedd y cyfrifon cyntaf i gael eu paratoi gan yr Awdurdod ac fe'u cyflwynwyd erbyn y terfyn amser gofynnol. Roedd y papurau gwaith a ddarparwyd yn gynhwysfawr ac o ansawdd da, ac fe ymatebodd swyddogion yn brydlon i ymholiadau archwilio a cheisiadau am ragor o wybodaeth.

24 Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd) i gael eu hystyried cyn fy mod yn cyhoeddi fy marn archwilio ynglŷn â'r cyfrifon. Fe wnaeth fy Arweinydd Ymgymeriad Archwilio Ariannol y materion hyn yn hysbys ar 14 Mehefin 2022. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a wnaed yn hysbys i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd**

| Materion | Sylwadau'r archwilwyr |
| --- | --- |
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Ni chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau yn y cyfrifon a oedd yn dal heb eu cywiro. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon i ddechrau a gywirwyd gan y rheolwyr. |

| Materion | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Materion arwyddocaol eraill | Nid chanfuwyd unrhyw faterion arwyddocaol eraill yn ystod yr archwiliad. Fe gyflwynom ni un argymhelliad yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon:<br><br>• Dylai oesoedd defnyddiadwy asedau presennol nad ydynt wedi'u dibrisio'n llawn gael eu hadolygu'n flynyddol a chydag unrhyw oesoedd yn cael eu haddasu fel y bernir yn angenrheidiol. |

25 Fe gynhaliais adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan hefyd. Deuthum i'r casgliad fod yr wybodaeth gysoni parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2022 a bod y ffurflen wedi cael ei pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

## Rheoleidd-dra Trafodion Ariannol

26 Rhaid i drafodion ariannol yr Awdurdod fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rhaid i'r Awdurdod fod â'r pwerau i gael yr incwm ac i ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan yr Awdurdod y pwerau i'w cael neu eu hysgwyddo.

27 Lle nad yw Awdurdod yn mantoli'r cyfrifon, mae ei wariant yn mynd y tu hwnt i'w bwerau i wario ac felly rhaid i mi amodi fy marn ar reoleidd-dra.

28 Llwyddodd yr Awdurdod i fantoli'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, gyda thanwariant o £366,000 yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw a thanwariant o £10,000 yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf. Roedd yr holl drafodion ariannol perthnasol eraill yn unol â'r awdurdodau ac fe'u defnyddiwyd at y dibenion a fwriadwyd, felly rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2021-22.

29 Mae gennyf y pŵer i osod adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Awdurdod ochr yn ochr â'm barnau pan fo arnaf eisiau amlygu materion. Gan bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddwy ddyletswydd ariannol a bod dim materion eraill a oedd yn teilyngu adroddiad, ni chyhoeddais adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon.

## Adolygiad o systemau TG a letyir yn genedlaethol

30 Mae'r Awdurdod yn lletya nifer o systemau ariannol cenedlaethol a ddefnyddir gan sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru. Mae'r systemau TG hyn yn cynnwys:

- system Gwasanaethau Cymwysiadau a Seilwaith Iechyd Cenedlaethol, a ddefnyddir ar gyfer demograffeg cleifion y GIG a'r peiriant taliadau ar gyfer cyfrifo taliadau contractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol gofal sylfaenol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru;
- system Fferyllfa Ysbyty, a ddarperir gan yr Awdurdod i sefydliadau'r GIG ac a ddefnyddir ar gyfer archebu, derbynebu stoc ac anfonebu mewn perthynas ag eitemau a chyffuriau fferyllol a ddosberthir gan Ysbytai ar gyfer talu trwy Oracle Accounts Payable;
- system Cofrestr Colledion a Thaliadau Arbennig, a ddarperir gan yr Awdurdod i sefydliadau'r GIG ar gyfer cofnodi, prosesu taliadau a darparu o adroddiadau Cyfreithiol a Risg yng Nghymru sy'n codi ar hawliadau am esgeulustod clinigol ac anaf personol gan gleifion a staff; a
- seilwaith TGCh cenedlaethol a rhwydwaith ardal Cymru gyfan y GIG, y cysylltiadau cyfathrebu rhwng holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru, a ddarperir gan yr Awdurdod.

31 Fe wnaeth fy archwilwyr Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth adolygu'r amgylchedd TG a'r rheolaethau ar gymwysiadau a gymhwysir i'r systemau hyn at ddibenion darparu sicrwydd ar gyfer barnau archwilio ariannol y GIG yn 2021-22. Fe wnaeth fy archwilwyr Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth ystyried cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod hefyd o ran mynd i'r afael â'm hargymhellion archwilio yn 2020-21 yn ogystal ag unrhyw argymhellion a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol a oedd yn dal heb gael eu rhoi ar waith.

32 Canfu fy archwilwyr Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth fod y rheolaethau TG a archwiliwyd gennym yn ein sicrhau bod gwerthoedd ariannol a gynhyrchwyd gan y systemau ar gyfer 2021-22 yn debygol o fod heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, er y gellid cryfhau rhai rheolaethau. Rwyf wedi gwneud nifer fach o argymhellion ynghylch TG yng ngwaith 2021-22 a ddylai gael sylw gan yr Awdurdod er mwyn lleihau i'r eithaf y potensial ar gyfer risgiau i systemau seilwaith a chymwysiadau yn y dyfodol. Canfu fy archwilwyr Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth hefyd fod peth cynnydd da wedi cael ei wneud o ran mynd i'r afael ag argymhellion ynghylch TG a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

33 Mae'n ofynnol yn statudol fy mod yn fy argyhoeddi fy hun bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran

defnyddio'i adnoddau. I'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw, rwyf wedi cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

34 Caiff fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn eu nodi isod.

## Asesiad strwythuredig

35 Digwyddodd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG nid yn unig yn dal i ymateb i'r heriau a achoswyd gan bandemig COVID-19 ond hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth.

36 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; ei drefniadau cynllunio strategol; ei drefniadau rheolaeth ariannol; a threfniadau i reoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill.

### Trefniadau llywodraethu

37 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, gyda ffocws penodol ar:

- effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau;
- i ba raddau y mae dyluniad sefydliadol yn ategu llywodraethu da; a
- systemau sicrwydd allweddol.

38 Canfu fy ngwaith fel a ganlyn: **ar y cyfan, mae'r Awdurdod yn cael ei arwain yn dda ac mae wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran sefydlu a gwreiddio trefniadau priodol i ategu llywodraethu da.**

39 Mae trefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn galluogi'r Bwrdd a'i bwyllgorau i gynnal eu busnes yn effeithiol ac yn dryloyw. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cadeirio'n dda, ac yn dangos diwylliant agored a thryloyw. Mae ansawdd ac amseroldeb yr wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n galluogi prosesau penderfynu ac yn cefnogi craffu a herio effeithiol gan Aelodau Annibynnol. Mae gan yr Awdurdod gynlluniau ar waith i wneud mwy o ddefnydd o storïau cleifion a staff, lle y bo'n bosibl, i amlygu gwersi a chefnogi gwelliant.

40 Mae'r Bwrdd yn dechrau sefydlogi yn dilyn nifer o benodiadau allweddol i'r Tîm Gweithredol a'r cnewyllyn o Aelodau Annibynnol. Fodd bynnag, mae'r amser a gymerwyd i wneud y penodiadau hyn wedi cael effaith ar ba mor gyflym y mae'r Awdurdod yn cyflawni rhai amcanion sefydliadol allweddol, megis bwrw ymlaen â gwaith ar ei strategaeth hirdymor. Mae'r Awdurdod wedi rhoi comisiwn i ddarparwr allanol gefnogi datblygiad a chydlyniant y Bwrdd yn dilyn y newidiadau hyn.

41 Mae'r Awdurdod wedi datblygu a gwreiddio systemau sicrwydd priodol, sy'n dal i gryfhau. Mae gan yr Awdurdod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sy'n fanwl, yn gywasgol ac o ansawdd da a danategir gan drefniadau rheoli risg effeithiol a

threfniadau rheoli perfformiad digonol. Ceir ymagwedd dda at hunanadolygu a gwella gan y Bwrdd a'i bwyllgorau, ac mae trefniadau'r Awdurdod i gefnogi datblygiad Aelodau Annibynnol yn cryfhau.

## Trefniadau cynllunio strategol

42 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau cynllunio strategol yr Awdurdod, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei weledigaeth ac amcanion strategol;
- ei Gynllun Tymor Canolig Integredig;
- ei drefniadau cynllunio; a hefyd
- ei drefniadau ar gyfer rhoi strategaethau a chynlluniau corfforaethol ar waith a monitro'r modd y cânt eu cyflawni.

43 Canfu fy ngwaith fod **gan yr Awdurdod ddulliau cynllunio effeithiol, ond bod angen gwaith pellach i ddatblygu ei strategaeth dymor hwy ac i gynnwys cerrig milltir a thargedau mewn rhai cynlluniau i'w gwneud yn bosibl monitro cynnydd yn effeithiol.**

44 Mae gweledigaeth ac amcanion strategol yr Awdurdod dros y tymor byr a chanolig wedi'u nodi'n glir yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2022-25. Fodd bynnag, mae cynnydd yr Awdurdod o ran datblygu ei strategaeth hirdymor wedi bod yn araf, yn rhannol oherwydd yr amser a gymerwyd i benodi Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth. Mae'r Awdurdod hefyd wedi penderfynu aros nes bod strategaeth ddigidol genedlaethol Llywodraeth Cymru'n cael ei chyhoeddi cyn ei fod yn paratoi ei strategaeth hirdymor ei hun. Chwaraeodd y Bwrdd ran weithredol yn y broses o oruchwylio a llunio'r CTCI 2022-25. Cafodd CTCI 2022-25 ei dderbyn yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, ac roedd yr adborth a ddarparwyd ar gyfer yr Awdurdod yn gadarnhaol at ei gilydd.

45 Mae gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol i oruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, megis CTCI 2022-25, y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, y Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, a'r Cynllun Ystadau. Mae'r Awdurdod yn ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn unol â'i Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid. Mae gan strategaethau a chynlluniau corfforaethol a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn ystod 2022 berchnogaeth glir gan Gyfarwyddwyr Gweithredol ac maent yn cynnwys amcanion strategol eglur a dealladwy, a danategir gan fesurau deilliant neu gamau gweithredu ar gyfer eu cyflawni. Fe'u hategir gan drefniadau llywodraethu, cyflawni ac adrodd priodol hefyd. Fodd bynnag, mae diffyg dyddiadau a cherrig milltir targed mewn rhai cynlluniau a strategaethau corfforaethol, megis y Cynllun Ystadau a'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, yn rhwystr i fonitro cynnydd ac adrodd arno mewn modd effeithiol.

## Rheoli adnoddau ariannol

46 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei drefniadau i gyflawni amcanion ariannol allweddol;
- ei reolaethau ariannol; a hefyd
- ei drefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol a'i fonitro.

47 Canfu fy ngwaith fel a ganlyn: **er bod gan yr Awdurdod ymagwedd effeithiol ar y cyfan at gynllunio, monitro ac adrodd ariannol, mae model cyllido'r sefydliad yn cyflwyno risgiau y mae angen eu rheoli'n weithredol yn y tymor canolig a hir.**

48 Mae trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau sefyllfa ariannol fantoledig yn dda. Cyflawnodd yr Awdurdod ei amcanion ariannol i adennill costau ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf yn 2021-22, ac mae'n rhagweld y bydd yn adennill costau ar y cyfan yn 2022-23. Er bod gan yr Awdurdod drefniadau cynllunio ariannol da, nid yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi'n glir sut y bydd y risgiau yn y tymor canolig a hir sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd y gronfa buddsoddi mewn blaenoriaethau digidol yn cael eu rheoli.

49 Mae gan yr Awdurdod reolaethau ariannol sy'n effeithiol at ei gilydd, gydag adroddiadau da i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar weithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion ac atal twyll. Mae gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno, gyda thystiolaeth o graffu a herio cymesur gan Aelodau Annibynnol. Fodd bynnag, dylai'r Bwrdd geisio mwy o sicrwydd ynghylch datblygu a chyflawni arbedion cylchol yn y tymor canolig a hir.

## Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystâd ac asedau ffisegol eraill

50 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei drefniadau i gefnogi lles staff;
- ei drefniadau i reoli ei adnoddau digidol; a hefyd
- ei drefniadau i reoli ei ystâd ac asedau ffisegol eraill.

51 Canfu fy ngwaith fod **gan yr Awdurdod ymrwymiad da i gefnogi lles staff a dulliau strategol da ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol a'r ystâd. Fodd bynnag, mae angen cryfhau ei drefniadau ar gyfer rheoli asedau ffisegol.**

52 Mae cefnogi lles staff yn flaenoriaeth amlwg i'r Awdurdod. Mae ganddo drefniadau da i adnabod, hyrwyddo, cyflawni a gwerthuso mentrau arloesol i wella iechyd a lles staff. Er bod adroddiadau i'r Bwrdd ar weithgarwch iechyd a lles yn dda, nid yw'r adroddiadau'n darparu sicrwydd digonol bod mentrau'n cyflawni'r effaith a ddymunir.

53 Nid oes gan yr Awdurdod Strategaeth Ddigidol ar wahân ar hyn o bryd, ond mae ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 yn amlinellu ymagwedd ddigidol y

sefydliad hyd at 2025. Cyflwynir adroddiadau da i'r Bwrdd ar gyflawni cynhyrchion a rhaglenni cenedlaethol. Ond mae cyfle i wella adroddiadau trwy ddarparu mwy o fanylion am heriau, risgiau a chyflawni manteision bwriadedig i'r Awdurdod a'r system iechyd a gofal ehangach. Mae'r Awdurdod wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu'r trefniadau llywodraethu mewn perthynas â rhaglenni cenedlaethol y mae'n eu lletya gyda golwg ar ddarparu eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau a threfniadau atebolrwydd.

54 Mae gan yr Awdurdod gynlluniau a strategaethau a gymeradwywyd gan y Bwrdd mewn perthynas â'r ystadau a datgarboneiddio, a danategir gan drefniadau cyflawni a goruchwylio priodol. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu rhaglen o arolygiadau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol, ac fe gyflwynir adroddiadau da i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar y materion hyn. Er bod yr Awdurdod wedi cymryd camau'n ddiweddar i gryfhau ei drefniadau rheoli stoc TG, mae angen iddo ddarparu mwy o sicrwydd i'r Bwrdd bod ei asedau ffisegol yn cael eu rheoli'n dda.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn 2022.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| Barn am y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| Adolygiad o Systemau TG a Letyir yn Genedlaethol | Ionawr 2023 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2022 | Rhagfyr 2022 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2022 | Ebrill 2022 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth-am-arian cenedlaethol yn 2022 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau sy'n rhychwantu'r sector cyhoeddus cyfan. Ariennir yr astudiaethau hyn yn nodweddiadol trwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith o ran craffu ar wariant cyhoeddus. Mae'r adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal ar y gweill**

Ceir nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n dal ar y gweill yn yr Awdurdod. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| Adolygiad o drefniadau cynllunio'r gweithlu | Mawrth 2023 |
| Adolygiad o lywodraethu gwasanaethau digidol gofal sylfaenol | Mai 2023 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2022 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £171,338 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod peth gwaith yn dal i fod ar y gweill, yn gyson â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

Yn ychwanegol at y ffi a nodir uchod, fe wnaeth y gwaith archwilio a wnaed ar y cydwasanaethau a ddarperir ar gyfer yr Awdurdod gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gostio £615.

# Atodiad 3

## Risgiau i archwilio'r cyfrifon

**Arddangosyn 4: risgiau i archwilio'r cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2022 yn nodi'r risgiau i'r archwiliad o gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2021-22. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Byddwn yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau;<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes; and<br>• ychwanegu rhagor o weithdrefnau i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau penodol o wrthwneud gan reolwyr nad yw'r gwaith gorfodol uchod yn ymdrin â hwy. | Ar sail sampl fe wnaeth fy nhîm brofi cofnodion dyddlyfr ac amcangyfrifon cyfrifyddu ac ni chanfu unrhyw dystiolaeth bod rheolwyr wedi gwrthwneud rheolaethau.<br>Roedd fy nhîm wedi'i argyhoeddi nad oedd unrhyw wall perthnasol yn y cyfrifon. |
| Dyma'r set gyntaf o ddatganiadau ariannol i'r AIA orfod eu paratoi ers ei greu ym mis Rhagfyr 2020. O ganlyniad, mae'r datganiadau ariannol o ran eu hanfod yn fwy tueddol o gynnwys camddatganiadau perthnasol. | Byddwn yn:<br>• profi cyflawnrwydd, dosbarthiad a chywirdeb balansau a drosglwyddwyd o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre;<br>• cwblhau gweithdrefnau gwirio i sicrhau bod asedau a drosglwyddwyd yn dal i fodoli ar ddiwedd y flwyddyn neu eu bod wedi cael eu gwaredu yn ystod y flwyddyn; | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd.<br><br>Cytunwyd ar newidiadau gyda'r Awdurdod i sicrhau bod y modd y datgelwyd balansau a drosglwyddwyd yn gyson â'r hyn yr hysbysodd Llywodraeth Cymru yn ei gylch; fodd bynnag, roedd yr effaith ar y cyfan yn ddim. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| | • cyflawni gweithdrefnau dadansoddol i sicrhau cyflawnrwydd incwm a gwariant; a<br>• phrofi incwm, gwariant a'r gyflogres yn sylweddol i sicrhau nad oes unrhyw drafodion gan y corff rhagflaenol wedi'u cynnwys yn anghywir. | |
| Er bod cyfyngiadau COVID-19 wedi cael eu codi bellach, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff ac o ganlyniad i weithio o bell a allai effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi'r cyfrifon. Ceir risg y bydd ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol yn cael ei beryglu gan arwain at fwy o wallau. Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu argaeledd adnoddau. | Byddwn yn trafod eich proses cau cyfrifon a threfniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses paratoi cyfrifon. Byddwn yn helpu i adnabod meysydd lle gall fod bylchau mewn trefniadau. | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd. Canfu fy nhîm fod gan yr Awdurdod drefniadau cadarn ac ni chanfu fy ngwaith unrhyw faterion yn hyn o beth. |
| Gohiriwyd cyflwyno IFRS 16 Prydlesi tan 1 Ebrill 2022. Gall fod yn ofynnol gwneud gwaith sylweddol i adnabod prydlesi a gallai argyfwng cenedlaethol COVID-19 achosi risgiau ychwanegol i'w rhoi ar waith. Bydd angen i gyfrifon 2021-22 ddatgelu effaith bosibl rhoi'r safon ar waith. | Byddwn yn adolygu cyflawnrwydd a chywirdeb y datgeliadau. | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd. Ni chanfu fy nhîm unrhyw faterion. |
| Ceir risg y byddwch yn methu â chyflawni eich dyletswydd ariannol i adennill costau. Mae'r | Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith profi ar feysydd yn y datganiadau | Fe wnaeth fy nhîm amrywiaeth o waith archwilio i ddarparu |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| sefyllfa ym mis 10 yn dangos gwarged ar gyfer y flwyddyn hyd yma o £510,000 a gwarged a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn o £350,000. | ariannol a allai gynnwys gwyrduedd adrodd. | sicrwydd ynghylch y risg o wyrduedd i sicrhau bod y sefyllfa wirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn yn gywir a theg. Roedd hyn yn cynnwys:<br>• gwaith manwl i brofi sampl o drafodion y naill ochr a'r llall i ddiwedd y flwyddyn i sicrhau eu bod wedi'u cofnodi yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Roedd ffocws y gwaith yma ar y meysydd a oedd yn cynnwys y risg fwyaf.<br>• sicrhau bod amcangyfrifon cyfrifyddu wedi'u paratoi ar sail resymol ac wedi'u hategu gan ddyfarniadau cyfrifyddu priodol.<br><br>Roedd fy nhîm wedi'i argyhoeddi nad oedd unrhyw wallau perthnasol yn y cyfrifon. |
| Ceir risg y byddwch yn methu â chyflawni eich dyletswydd ariannol i beidio â mynd y tu hwnt i'r terfyn adnoddau cyfalaf. Mae'r sefyllfa ar gyfer mis 10 yn dangos gwariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma o £5.855 miliwn yn erbyn terfyn adnoddau cyfalaf o £11.153 miliwn, gyda gwariant cyfalaf a ragwelir ar gyfer y flwyddyn o £10.558 miliwn.<br>Pe baech yn methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol hon, | Bydd ffocws ein gwaith profi ar feysydd yn y datganiadau ariannol a allai o bosibl gynnwys gwyrduedd adrodd. | Fe wnaed y gwaith fel a nodir uchod. Ni chanfu fy nhîm unrhyw faterion. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| byddem yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol i amlygu'r methiant ac amodi eich barn am reoleidd-dra. | | |
| Rydym yn archwilio rhai o'r datgeliadau yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol, megis cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion ac aelodau annibynnol, yn ôl lefel perthnasedd is.<br>Bu nifer o newidiadau i'r uwch dîm rheoli a chyfarwyddwyr anweithredol yn ystod y flwyddyn ariannol. Ceir risg nad yw'r newidiadau hyn yn cael eu datgelu'n gywir yn Adroddiad yr AIA ar Gydnabyddiaeth Ariannol. | Byddwn yn adolygu'r holl gofnodion yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol i wirio bod yr AIA wedi adlewyrchu'r holl newidiadau hysbys i uwch swyddi, a bod y datgeliadau'n gyflawn ac yn gywir. | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd.<br>Cytunwyd ar rai newidiadau gyda'r Awdurdod i sicrhau bod yr adroddiad terfynol ar gydnabyddiaeth ariannol yn gywir a bod datgeliadau'n cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cyfrifon y GIG. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.